**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A M Day (yr Arglwydd Faer) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | B Hopkins | F D O'Brien |
| P N Bentu | D H Hopkins | C L Philpott |
| P M Black | L James | J E Pritchard |
| A Davis | Y V Jardine | S Pritchard |
| A M Day | A J Jeffery | B J Rowlands |
| P Downing | D H Jenkins | R V Smith |
| C R Doyle | J W Jones | R C Stewart |
| M Durke | L R Jones | L G Thomas |
| C M J Evans | M H Jones | W G Thomas |
| V M Evans | S M Jones | M S Tribe |
| R Fogarty | E J King | L V Walton |
| R Francis-Davies | W G Lewis | T M White |
| H J Gwilliam | P Lloyd | R A Williams |
| C A Holley | N L Matthews | |
| V A Holland | J D McGettrick | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): S Bennett, E W Fitzgerald, L S Gibbard, K M Griffiths, P R Hood-Williams, M Jones, E T Kirchner, H Lawson, M B Lewis, R D Lewis, A S Lewis, M W Locke, H M Morris, A J O'Connor, K M Roberts a/ac A H Stevens

---

## 98. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a allai fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes

gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd taflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 99. Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Kevin Johns MBE.

Croesawodd y Dirprwy Arglwydd Faer, Arglwydd Raglaw, Uchel Siryf, arweinwyr dinesig, gwesteion nodedig, aelodau'r cyngor a Kevin Johns i gyfarfod seremonïol o'r cyngor.

Cyfeiriodd Arweinydd y cyngor at gyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2022 (cyfeirir ato yng Nghofnod 79) lle penderfynodd y cyngor roi Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Kevin Johns.

Siaradodd Arweinydd y Cyngor, arweinydd yr wrthblaid fwyaf ac arweinwyr y grwpiau gwleidyddol eraill o blaid y cynnig.

Ganed Kevin Johns ym Mhlas-marl, Abertawe ac mae'n wyneb adnabyddus ym myd adloniant. Mae wedi ymroi ei fywyd i adloniant ac i waith elusen. Mae Kevin Johns wedi cael ei alw’n "Mr Abertawe" ac yn y blynyddoedd diweddar bu ar frig pleidlais Eiconau Abertawe.

**Penderfynwyd** rhoi Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Kevin Johns.

Cyflwynodd yr Arglwydd Faer y Sgrôl Rhyddid er Anrhydedd i Kevin Johns gan roi Rhyddid Dinas a Sir Abertawe iddo.

Ymatebodd Kevin Johns drwy ddiolch i'r cyngor am yr anrhydedd.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.18 pm

**Cadeirydd**